

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A'R AWDURDOD RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU DŴR

Nodyn Esboniadol

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r cytundeb rhwng yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) a Gweinidogion Cymru ac mae'n amlinellu'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i'r berthynas rhwng y naill barti a'r llall.

Mae'r Memorandwm yn ofynnol yn unol ag adran 52(4) Deddf Dŵr 2003 (y Ddeddf Dŵr). Mae'r Ddeddf Dŵr yn rhoi dyletswydd ar y ddau barti i gydweithio i wneud trefniadau i hyrwyddo:

- a. cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth rhyngddynt;
- b. cysondeb wrth ymdrin â materion sy'n effeithio ar y naill a'r llall.

Caiff y Memorandwm hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru.

Bydd y Memorandwm hwn hefyd yn cael ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel sy'n ofynnol dan adran 52(8) y Ddeddf Dŵr.

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

Rhagarweiniad

1. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i'r berthynas rhwng y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr ("Ofwat") a Gweinidogion Cymru.
2. Mae'r Memorandwm hwn yn ofynnol yn unol ag adran 52(4) Deddf Dŵr 2003, er mwyn sicrhau bod trefniadau gwaith effeithiol wedi'u sefydlu rhwng y partion. Ni fwriedir i'r Memorandwm ymdrin â phob agwedd fanwl ar y berthynas rhwng y partion. Yn hytrach, mae'n ddatganiad o'r egwyddorion a fydd yn sail i'r berthynas rhyngddynt er mwyn sicrhau bod trefniadau digonol wedi'u sefydlu i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau priodol yn effeithiol ac i osgoi dyblygu ymdrechion.
3. Nid yw'r Memorandwm hwn yn rhwymo mewn cyfraith ond bydd yn ddogfen weithio a gaiff ei hadolygu yng ngoleuni'r ffordd y'i gweithredir yn ymarferol.

Adolygu Memoranda

4. Ceir diwygio'r Memorandwm hwn ar unrhyw adeg drwy gytundeb y naill barti a'r llall. At hynny, caiff y Memorandwm hwn ei adolygu bob tair blynedd a'i ddiweddarau yn ôl yr angen, yng ngoleuni'r ffordd y'i gweithredir yn ymarferol.

Rolau a Chyfrifoldebau

5. Ofwat yw corff rheoleiddio economaidd y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr¹. Mae Ofwat yn gyfrifol am reoleiddio'n economaidd y diwydiant dŵr a charthffosiaeth, ac mae'n gweithredu'n annibynnol ar y diwydiant, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill o fewn fframwaith polisi'r llywodraeth. Bydd Ofwat yn sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael barn Ofwat am faterion sy'n effeithio ar bolisi ar y sector dŵr a charthffosiaeth. Mae hyn yng nghyd-destun fframwaith rheoleiddio sy'n cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sy'n gyfrifol am yr amgylchedd, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed sy'n gyfrifol am ansawdd dŵr yfed a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr.
6. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisiau dŵr a'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer y sector dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru yn unol â Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Amcanion craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod dŵr yfed diogel ar gael, bod gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yn fforddiadwy ac y cydymffurfir â rhwymedigaethau statudol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau yr ymgynghorir ag Ofwat yn gyson ynghylch y penderfyniadau sy'n effeithio ar y sector dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru.

¹ At ddibenion y Memorandwm hwn mae "Cymru" yn golygu ardaloedd cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.

7. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i ddatblygu a darparu polisiau ar gyfer y sectorau dŵr a charthffosiaeth ac i sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru yn ganolog i'r gwaith o weithredu'r polisiau hynny. Y polisiau hynny sy'n pennu'r fframwaith y bydd Ofwat yn ei ddilyn wrth gyflawni ei dyletswyddau.
8. Wrth gytuno ar y Memorandwm hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod annibyniaeth Ofwat yn llwyr ac mae Ofwat yn cydnabod buddiannau a chyfrifoldebau cyfreithlon Llywodraeth Cynulliad Cymru yng ngwaith cyffredinol Ofwat.
9. O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi canllawiau statudol i Ofwat ynglŷn â'r ffordd y dylai gyfrannu at bolisiau cymdeithasol ac amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd Ofwat yn rhoi sylw i'r canllawiau hyn pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau fel y corff rheoleiddio. Bydd Ofwat yn nodi yn ei hadroddiad blynyddol sut y mae wedi cyfrannu at y gwaith o weithredu'r polisiau a amlinellir yn y canllawiau.

Perthynas Waith

10. Byddwn yn ceisio adeiladu ar y berthynas waith dda sydd gennym eisoes drwy:
 - feithrin perthynas waith agored ac adeiladol;
 - rhoi sylw i sefyllfaoedd polisi gwahanol Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â dŵr;
 - cydweithio'n agos ar bob lefel, o ran polisiau a materion strategol pwysig;
 - cynnal cyfarfodydd dwyochrog rhwng Ofwat a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru;
 - cytuno i gynnal cyfarfodydd rhwng Prif Weithredwr Ofwat a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai pan fydd hynny'n briodol;
 - parchu safbwyntiau ein gilydd, os ydynt yn wahanol, ar ôl trafod er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn iawn y rhesymau dros wahaniaethau o'r fath;
 - gweithredu polisi o "fod yn agored â'n gilydd", gan roi gwybod i'n gilydd ymhell o flaen llaw pan fydd hynny'n bosibl am gyhoeddiadau arwyddocaol ac am ddatblygiadau o ran polisi;
 - nodi'r meysydd lle mae cyswllt rhwng y naill a'r llall ohonom o ran rheoleiddio a nodi'r hyn y mae'r naill yn ei ddisgwyl gan y llall;
 - lleihau achosion o ddyblygu gweithgarwch pan fydd hynny'n bosibl;
 - rhoi gwybod i randdeiliaid am ein perthynas er mwyn lleihau ansicrwydd o ran rheoleiddio.

Cydweithredu

11. Rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i weithio gyda'n gilydd, pan fydd hynny'n briodol, ar faterion sydd o fudd cyffredin. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu ar draws amryfal feysydd, gan sicrhau ar yr un pryd bod Ofwat yn cadw ei annibyniaeth statudol.

Ymdrin â Materion sydd o Fudd Cyffredin

12. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfathrebu da rhwng y naill a'r llall ynghylch materion sydd o fudd cyffredin, a hynny ar sail polisi o "fod yn agored â'n gilydd". Byddwn yn gwneud hyn drwy gysylltiadau rheolaidd a thrwy drafodaethau rheolaidd am faterion perthnasol. Yn hytrach na chyfyngu ar ddisgresiwn y naill barti na'r llall, y nod yw caniatáu iddynt gyflwyno sylwadau i'w gilydd mewn da bryd i'r sylwadau hynny gael eu hystyried.
13. Yn unol â'r cefndir hwn, ac yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, a chyfyngiadau eraill (ee cyfrinachedd masnachol, materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o brisiau ac ati), byddwn, yn gyfrinachol yn ôl yr angen, yn:
 - i. hoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau eraill ac os nad ydym yn cytuno â hwy, esbonio pam;
 - ii. rhoi sylw i'r cyngor gan y llall a'i ddilyn, fel y bo'n briodol.
14. Byddwn yn gwahodd ein gilydd i gynadleddau ffurfiol i'r wasg ac i ddigwyddiadau cyhoeddus sy'n cael eu cynnal gan y naill, ond sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall.
15. Pan fydd yn briodol ac yn ôl yr angen, byddwn yn cysylltu â'n gilydd ynghylch drafftio dogfennau allweddol sy'n berthnasol i swyddogaethau'r llall, a byddwn yn cynnwys y naill a'r llall mewn gwaith o'r fath ac yn rhoi gwybod iddynt amdano.

Cyfnewid Gwybodaeth

16. Byddwn yn anelu at leihau'r baich a roddir ar ymgymrwyr dŵr a charthffosiaeth ac ar gyflenwyr dŵr trwyddedig ("y Cwmnïau") o ran darparu gwybodaeth i awdurdodau cyhoeddus. Byddwn yn anelu at osgoi dyblygu drwy rannu amserlenni cyhoeddi a chynlluniau i gasglu gwybodaeth oddi wrth Gwmnïau. Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn ymgynghori â'n gilydd cyn ystyried cysylltu â Chwmnïau, a hynny er mwyn gweld a yw'r wybodaeth angenrheidiol ar gael eisoes ar ffurf briodol gan y llall.
17. Byddwn yn darparu gwybodaeth sydd gennym y gallai fod yn rhesymol i'r llall ofyn amdani, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r trefniadau diogelu angenrheidiol o ran cyfrinachedd neu'n ddarostyngedig i unrhyw waharddiadau ar ddatgelu.

18. Bydd y naill yn ystyried cyfrifoldebau statudol y llall mewn perthynas â datgelu gwybodaeth sensitif.
19. Byddwn yn cyfeirio yn ôl unrhyw geisiadau am wybodaeth sydd gennym ond na wnaethom ei chasglu ac y gwyddom ei bod yn gyfrinachol ei natur at y parti o le y daeth yr wybodaeth honno yn y lle cyntaf. Bydd y naill yn rhoi gwybod i'r llall am unrhyw ddatgeliadau arwyddocaol i drydydd partiön o wybodaeth yr ydym wedi'i rhannu â'n gilydd.

Anghydfodau

20. Os ceir anghydfod am y modd y dehonglir a/neu y gweithredir y Memorandwm ac os nad oes modd i ni ei ddatrys ar lefel waith, bydd Prif Weithredwr Ofwat a Chyfarwyddwr Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod y mater ac yn penderfynu ar ba gamau i'w cymryd.

Cyhoeddi Memoranda

21. Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod y memorandwm hwn ac unrhyw femoranda diwygiedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn anfon y memorandwm hwn ac unrhyw femoranda diwygiedig at y partiön y mae adran 52(4) y Ddeddf Dŵr yn ymdrin â hwy (ac nad ydynt yn bartiön i'r memorandwm hwn).
22. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gosod y memorandwm hwn ac unrhyw femoranda diwygiedig gerbron y Senedd.
23. Caiff fersiwn ddiweddar o'r Memorandwm hwn ei chyhoeddi ar wefan Ofwat (www.ofwat.org.uk) ac ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru (www.cymru.gov.uk). Bydd modd cael copïau caled hefyd drwy wneud cais i Ofwat ar 0121 625 1399 ac i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 029 2082 5509.

Llofnodwyd gan:

Marian Spain

.....ar ran yr Awdurdod Rheoleiddio
Gwasanaethau Dŵr

(Marian Spain)

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2010

Claire Bennett

.....ar ran Gweinidogion Cymru
(Claire Bennett)

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2010